




TAI GWARCHOD



Mae gwybodaeth yn y daflen hon am y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn ein tai gwarchod.

Cartrefi wedi eu cynllunio yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, anabl a bregus yw ein cartrefi gwarchod. Mae nhw yn ddelfrydol ar gyfer pobl sy'n mwynhau byw'n annibynnol.

Mae cartrefi gwarchod yn cynnwys fflatiau heb ddodrefn, byngalos a fflatiau stiwdio. Mae Warden ymhob cynllun a gwasanaeth larwm 24 awr.

Y bwriad yw darparu llety cyfleus a chyfforddus mewn amgylchedd ble mae gan breswylwyr ddrws ffrynt eu hunain.

DEWIS CYNLLUN A LLEOLIAD ADDAS

Mae'r cyfleusterau mewn tai gwarchod yn amrywio o gynllun i gynllun.

Mae nifer o faterion y dylech eu hystyried cyn penderfynu pa gartrefi gwarchod sy'n addas i chi.

Lleoliad a chyfleusterau lleol: Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn agos at siopau, swyddfeydd post, banciau a gwasanaethau meddygol. Mae cyfleusterau fel parciau, llyfrgelloedd, manau addoli, clybiau a chanolfannau gofal dydd o fewn pellter rhesymol i lawer o'r cynlluniau.

Trafnidiaeth: Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn agos at lwybrau trafndiaeth cyhoeddus (bws a thrên) ac mae cyfleusterau parcio ar gael ar y safleoedd.

RÔL STAFF TAI GWARCHOD

Mae rôl staff tai gwarchod yn amrywio a gall gynnwys rhoi cefnogaeth a hybu annibyniaeth.

- Mae staff ein tai gwarchod yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn gwneud ymweliadau monitro dyddiol i sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel.
- Mae gwasanaeth larwm argyfwng Galw Gofal yn darparu gwasanaeth 24/7 pan nad yw'r staff ar ddyletswydd. Bydd pob tenant yn cael cadwyn gyda larwm sydd wedi ei gysylltu i'r system argyfwng yma.

Nid yw'r staff yn gallu gwneud dyletswyddau fel siopa, coginio, glanhau a gofal personol. Mae'r rhain yn gyfrifoldeb sefydliadau gofal fel y Gwasanaethau Cymdeithasol.

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Mae cyfleusterau cymunedol mewn rhai o'r cynlluniau gwarchod fel lolfa.

Ym mhob lolfa mae cegin fechan ble gall tenantiaid wneud te a choffi. Mae tenantiaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r lolfa a'r gegin i gymdeithasu.

Mewn rhai o'r cynlluniau mae cyfleusterau golchi dillad a gall pob tenant eu defnyddio.

Mae gardd yn rhan fwyaf o dai gwarchod CCG.

TÂL AM WASANAETHAU

Mae ffi wythnosol am y gwasanaeth warden a'r system larwm argyfwng.

Bydd taliadau am y gwasanaethau hyn yn cael eu codi ar wahân i'ch rhent.

Tenantiaid sy'n gyfrifol am dalu treth y cyngor, treth dŵr, ffôn a biliau ynni.

CYNNAL A CHADW AC ADDASIADAU

Mae CCG yn buddsoddi mewn addasiadau ar gyfer pobl gydag anabledau fel y gall unigolion barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi. Gall addasiadau gynnwys rampau, canllawiau a chawodydd mynediad hawdd.

Fel landlord bydd CCG fel arfer yn gwneud atgyweiriadau sy'n angenrheidiol i'ch cartref. Eich cyfrifoldeb chi fel tenant fyddai rhoi gwybod i ni am unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen.

DIOGELWCH

Mae tai gwarchod Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi eu cynllunio i roi diogelwch ychwanegol i'r hyn sydd ar gael mewn tai arferol.

Nodweddion arbennig sy'n cael eu darparu mewn tai gwarchod yw allweddi diogelwch, systemau mynediad, ymweliad y warden, larymau tân a mwg ynghyd â gofal staff y cynllun. Mae hyn i gyd yn darparu amgylchedd mwy diogel ar gyfer tenantiaid hŷn.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol hefyd bod tenantiaid yn ymwybodol o beth y gallant ei wneud i gyfrannu at ddiogelu eu cartref.

Rydym yn annog tenantiaid sydd â chadwyn larwm i'w wisgo ar bob achlysur o fewn ffin y cynllun.

CYFRANOGIAD TENANTIAID AC YMGYNGHORI

Rydym wedi ymrwymo i greu cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn ein penderfyniadau a'r ffordd rydym yn datblygu gwasanaethau. Gall tenantiaid wneud cyfraniad pwysig i reoli eu cynllun tai gwarchod eu hunain drwy gymryd rhan a dweud eu dweud.

Caiff cyfarfodydd tenantiaid eu cynnal yn rheolaidd yn y cynlluniau tai gwarchod. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfle i denantiaid a staff drafod materion sy'n achosi pryder iddynt. Weithiau bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn ymgynghori ar faterion fel gwaith datblygu neu welliannau i'r safle.

Ond os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn trafod unrhyw beth mewn cyfarfod mae croeso i chi siarad efo'n staff ni unrhyw bryd.

I ddysgu mwy am ein cynlluniau tai gwarchod cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** neu eboostiwch **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**

TAI GWARCHOD YN EICH ARDAL CHI

CAERNARFON

Tre'r Gof (LL55 2PT)
Tan y Mur (LL55 1SP)
Llys yr Eifl (LL55 2LJ)

PENYGROES

Bryn Llwyn (LL54 6PF)

RHOSGADFAN

Gwelfor (LL54 7HA)

LLANRUG

Hafan Elan (LL55 4BU)

DEINIOLEN

Rhydfadog (LL55 3HL)

BANGOR

Craig Menai (LL57 2JB)
Llys Dewi Sant (LL57 2UJ)

BETHESDA

Maes y Garnedd (LL57 3BP)

BERMO

Hafan Deg (LL42 1PL)

BLAENAU FFESTINIOG

Llain y Maen (LL41 3UN)

BALA

Cysgod y Coleg (LL23 7BD)

TYWYN

Morfa Cadfan (LL36 1AB)

PENRHYNDEUDRAETH

Bro Llewelyn (LL48 6AL)

DOLGELLAU

Ffynhonnau (LL40 1LY)

DYFFRYN ARDUDWY

Pentre Uchaf (LL44 2HF)

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.